

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae

Gaeaf 2008



Mannau i Chwarae



www.chwaraecymru.org.uk



Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-5
Mannau i Chwarae Hoff Fannau Chwarae Plant	6-7
Creu Mannau Da i Chwarae	8-9
<i>Design for Play: a guide to Creating Successful Play Spaces</i>	10-11
Cynllunio a Chwarae	12
Rhodwyr Chwarae – gwneud mannau'n gyfeillgar i chwarae	13
Hyfforddiant i Ddatblygu'r Gweithlu	14
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	14
DPP yng Nghymru	14
Ble wyt Ti? Arolwg gweithlu Gwaith Chwarae Cymru	15
Digwyddiadau a Llyfrau	16

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan
Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Ballig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r
farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn.
Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.
Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch
na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r
cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a
gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan
Carrick
Ffôn: 01443 843 520
E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Golygyddol

**Theresa Casey yw'r golygydd
Tgwadd ar gyfer y rhifyn hwn o
Chwarae dros Gymru. Theresa yw
Llywydd yr 'International Play
Association' (sy'n hyrwyddo hawl y
plentyn i chwarae), Albanes ac
awdur *Inclusive Play ac
Environments for Outdoor Play.***

Mae sicrhau bod pob plentyn yn cael
mynediad i amgylcheddau chwarae
bywiog a symbylol trwy gydol eu
plentyndod yn fodd pwysig o gefnogi
eu lles. Mae'n cyfrannu at gyflawni
ein cyfrifoldeb i blant dan Erthygl 31 o
Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn, yr hawl i chwarae.

Mae amgylcheddau chwarae
gwirioneddol dda ar gyfer plant yn
gaffaeliad i'n cymunedau. Mae'r
rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn
archwilio rhai o'r ffyrdd y gallwn droi ein
cefn ar yr agwedd fformiwlaig,
draddodiadol a dechrau darparu neu
gefnogi amgylcheddau chwarae sydd
wir yn ateb anghenion chwarae plant.

Caiff y man ble y bydd plant yn
chwarae ddylanwad hynod o
arwyddocaol ar ansawdd eu
profiadau chwarae. Gall amgylchedd
chwarae diddorol a heriol gyfoethogi
ac ehangu chwarae plant, creu
ymdeimlad o les a hunan-barch, a
hybu perthnasau cadarnhaol. Mae'n
cynnig ystod eang o bosibiliadau
pwysig i blant: i gael cyswllt â natur; i
brofi ac ehangu eu diddordebau a'u
doniau; i gyflawni eu harchwiliadau
a'u canfyddiadau eu hunain; i
chwarae heb ymyrraeth di-angen gan
oedolion; i ryngweithio, gwneud
newidiadau a thrawsnewid eu
amgylchiadau.

Bydd yr hyn y mae plant ei eisiau o fan
chwarae'n amrywio gydag oedran,
diddordebau ac amgylchiadau. Ond,
yn gyffredinol, mae plant wedi dangos
bod yn well ganddynt fannau sy'n
cynnig amrywiaeth, hyblygrwydd,
elfennau naturiol, risg a her. Fydd
amgylchedd chwarae diflas sydd wedi

ei esgeuluso'n cynnig fawr ddim
cyfleoedd chwarae digonol i blant ac
mae'n cyfleu neges i blant nad yw
oedolion yn eu gwerthfawrogi ddigon i
ddarparu rhywbeth gwell – ac os
hynny, pam ddylai plant a phobl ifanc
eu gwerthfawrogi a gofalu amdanynt?
Gan fod amgylcheddau chwarae
gwael yn rhoi llai o gyfle i blant
fwynhau chwarae gyda'i gilydd, bydd
yn golygu bod eu chwarae'n
rhwystredig neu'n ddinistriol. Gall hyn
yn ei dro greu agweddau negyddol
ymysg oedolion.

Y farn gyffredinol yw bod mwy o
gyfyngiadau'n cael eu gosod ar
gyfleoedd plant i chwarae'n rhydd y
tu allan heb unrhyw oruchwyliaeth y
dyddiau hyn, o'i gymharu â
chenedlaethau blaenorol. Caiff plant
eu digalonni gan ofnau pobl eraill
ynghylch eu diogelwch, eu pryderon
eu hunain ynghylch diogelwch
personol, cyflwr gwael rhai meysydd
chwarae, tagfeydd ar y strydoedd a
pheryglon traffig. Mae ymgyrch
ddiweddarn Barnardo's sy'n amlygu
'demoneiddio' plant yn y DU (gweler
ein adran newyddion) yn dangos y
diffyg goddefgarwch y bydd rhai
plant yn ei brofi'n awr pan fyddant
allan yn eu cymuned.

Mae blas Albanaid i'r rhifyn hwn o
Chwarae dros Gymru: gweithiodd Sue
Gutteridge am nifer o flynyddoedd i
drawsnewid y gwasaenaeth chwarae
yn Stirling, ac mae Aileen Shackell yn
dirlunwraig o'r Alban a helpodd i
ysgrifennu *Design for Play – a guide to
creating successful play spaces*, a
gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Yn
aml iawn, byddwn yn eiwa o edrych y
tu hwnt i'n ffiniau i ennill ysbrydoliaeth
ac esiamplau gan ein cydweithwyr
mewn gwledydd eraill. Edrychaf
ymlaen i ddod i Gymru ar gyfer
cynhadledd yr IPA yn 2011, pryd y gall
pawb ohonom rannu ein profiad a'n
doethineb yn y gobaith o greu byd
gwell i'n plant chwarae ynddo.

Theresa Casey

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud
heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol
ar gael i'w llwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Amser i Ddiwrnod Chwarae 2009

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn edrych ar fannau da i chwarae – ond mae plant angen amser a rhyddid i chwarae hefyd. Felly awgrymodd Chwarae Cymru i Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae y DU y dylai'r thema eleni ymwneud ag amser i chwarae. Rydym yn falch i ddweud bod aelodau eraill y grŵp a threfnwyr Diwrnod Chwarae yr ymgynghorwyd â nhw'n cytuno bod 'amser i chwarae' yn cynnig cyfle am ymgyrch gofiadwy.



Ar yr un pryd byddwn yn galw ar rieni, pobl sy'n agweithio gyda phlant, llunwyr polisïau, cynllunwyr, athrawon, a mwy – i roi amser a meddwl i chwarae plant.

Cynhelir Diwrnod Chwarae 2009 ar Ddydd Mercher 5 Awst a chynhelir digwyddiadau ym mhob cwr o'r wlad trwy gydol yr haf. Yr haf yma gwelwyd mwy o ddigwyddiadau cofrestredig Diwrnod Chwarae (25) o amgylch Cymru nag erioed o'r blaen ac mae'n ddigon posibl bod rhai eraill nad oeddem yn

gwybod amdanynt.

Tra ei bod yn rhan o'n swydd i sicrhau y caiff plant fynediad i ac amser ar gyfer cyfleoedd chwarae o safon bob dydd, bydd ymuno â'n gilydd i ddathlu ac ymgyrchu ar y cyd ar un diwrnod o'r flwyddyn yn cynyddu proffil chwarae o fewn cymunedau yn ogystal â gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau.

www.playday.org.uk

Storfa sgrap yn dathlu 20ed pen-blwydd

Yn ddiweddar dathlodd Re-create, y storfa sgrap sy'n gwasanaethu Caerdydd a Bro Morgannwg, ei phen-blwydd yn ugain oed.

Dywedodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, a fynychodd y dathliadau:

'Rydw innau'n un ar hugain mlwydd oed, mewn blynyddoedd gwleidyddol hynny yw (gan imi wasanaethu Gorllewin Caerdydd unai fel AS neu AC ers 1987) ac rwy'n hynod o falch i gefnogi'r gwaith arbennig a wneir gan Re-create yma yn y Ganolfan Adnoddau Chwarae dros y ddau ddegawd diwethaf. Rwyf wrth fy modd yn dod yma, ac fe

hoffwn pe bawn yn gallu treulio llawer mwy o amser yma, wrth gwrs pe byddwn i, fe fyddai fy nhŷ innau'n edrych fel hyn o fewn dim, gyda offer chwarae plant a deunyddiau DIY ym mhob twll a chornel. 'Dyw ogof Aladdin ddim ynddi o gwbl, mae'n le gwyh.'

Am fwy o wybodaeth ynghylch storfeydd sgrap yn eich ardal chi, ymwelwch â:

www.chwaraecymru.org.uk/page.asp?id=78

Gwefan Chwarae Cymru

Mae ein gwefan yn adnodd gwybodaeth defnyddiol sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar gyfer pawb sydd ynghlwm â chwarae a darpariaeth chwarae.

Yn ddiweddar, ychwanegwyd ffeithddalenni a phapurau briffio newydd i'r wefan yn cynnwys 10 Awgrym Anhygoel ar gyfer Codi Arian; Chwarae a'r Agenda Iechyd; Chwarae, Gwaith Chwarae a Bwyd; a Cyfranogaeth a Gwaith Chwarae (cyfweiliad gyda Roger Hart).

Mae'r dudalen Chwarae a Chyfranogaeth yn yr adran chwarae yn ychwanegiad newydd ac mae'r dudalen Chwarae a Risg wedi ei diweddarau i gynnwys rhagor o adnoddau, yn cynnwys *Canllaw gweithiwr chwarae i risg* a dolennau i wybodaeth bellach.

www.chwaraecymru.org.uk

Y Triongl Adnoddau Chwarae

Mae Chwarae Cymru, mewn cydweithrediad â'r 'National Playbus Association' a'r 'National Association of Toy and Leisure Libraries', wedi cyhoeddi papur briffio sy'n tanlinellu'r budd gaiff chwarae plant a darpariaeth chwarae yng Nghymru o lyfrgelloedd teganau a hamdden, storfeydd sgrap a darpariaeth chwarae symudol – y triongl adnoddau chwarae.



Gellir llwytho'r papur briffio – *Y triongl adnoddau chwarae: cynyddu cyfleoedd chwarae mewn modd creadigol* – i lawr o www.chwaraecymru.org.uk



Adolygiad Blynyddol Y Comisiynydd Plant



Yn ei Adolygiad Blynyddol cyntaf fel Comisiynydd Plant Cymru mae Keith Towler yn herio'r rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu a throsglwyddo gwasanaethau plant a phobl ifanc i ganolbwyntio ar gau'r bwch rhwng y nifer o bolisiau da a'u gweithredu anghyson ar draws y wlad.

Yn ystod lansiad yr adolygiad dywedodd y Comisiynydd:

'Mae'r ffaith bod y bwch hwn yn amlwg ar draws nifer o feysydd polisi a gwasanaethau, mewn gwahanol rannau o Gymru, yn nodwedd rheolaidd, nid yn unig o'r newyddion, ond o achosion cyngor a chefnogaeth gaiff eu dwyn i'm sylw, ac mae'n tanlinellu'r angen i gydnabod y broblem a chwilio am ffordd i ddelio â hi. Gan inni wneud cymaint o gynnydd yng Nghymru byddai'n drueni mawr os na fyddwn yn ddigon dewr i gydnabod y problemau ac i gymryd pa bynnag gamau sydd eu hangen i gau'r bylchau hynny.

'Mae'n rhaid inni ddynodi ffordd y gall llywodraethau

cenedlaethol a lleol a sefydliadau plant rannu gwybodaeth a thystiolaeth a chydweithio'n effeithiol i wella bywydau plant a phobl ifanc ein gwlad.'

Bydd agweddau allweddol eraill o waith y Comisiynydd yn y dyfodol yn cynnwys: monitro gweithredu'r argymhellion a wnaethpwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; gwneud dysgu'n well – gan ddefnyddio negeseuon gan blant a phobl ifanc i helpu i wella'r profiad dysgu; ffurfio cysylltiadau cryfach gyda phartneriaethau fframwaith plant a phobl ifanc; parhau i wrando a dysgu, hyrwyddo arfer da a siarad o blaid plant a phobl ifanc Cymru.

I lwytho Adolygiad Blynyddol 2007-2008 i lawr, ymwelwch â:
www.childcom.org.uk

Monitro hawliau plant

Ym mis Hydref adroddodd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (y corff o arbenigwyr annibynnol sy'n monitro gweithredu Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan Wledydd sydd wedi ei arwyddo) ar sefyllfa plant yn y DU.

Roedd y pwyllgor yn bryderus ynghylch yr hinsawdd cyffredinol o anoddefgarwch ac agweddau negyddol cyhoeddus tuag at blant, yn enwedig rhai yn eu harddegau cynnar, oedd i'w weld yn bodoli yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yn y cyfryngau ... Pryder arall oedd y cyfyngiadau a osodwyd ar ryddid symudiad ac ymgynnull heddychlon plant gan orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â thrwy ddefnyddio'r "dyfeisiau mosgito".

Gwarth anoddefgarwch Prydain tuag at blant

Yn ôl arolwg syfrdanol a gomisiynwyd gan Barnardo's, mae anoddefgarwch digyfiawnhad ac annifyr tuag at blant yn bodoli yn y DU. Dengys gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan YouGov bod gan y cyhoedd farn negyddol o blant yn gyffredinol, er gwaetha'r ffaith bod y mwyafrif o blant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned.

Dengys y canfyddiadau bod:

- ychydig o dan hanner (49%) o bobl yn cytuno bod plant yn berygl cynyddol i'w gilydd ac i oedolion
- 43% yn cytuno bod yn rhaid gwneud rhywbeth i'n hamddiffyn rhag plant
- mwy nag un rhan o dair (35%) o bobl yn cytuno bod y strydoedd yn teimlo fel pe baent yn "berwi" o blant y dyddiau hyn

Caiff anoddefgarwch y cyhoedd ei adlewyrchu hefyd yn y *British Crime Survey*, sy'n dynodi bod y cyhoedd yn teimlo mai pobl ifanc oedd yn gyfrifol am hyd at hanner o bob troseddau, pryd mewn gwirionedd roedd pobl ifanc ond yn gyfrifol am 12% o droseddau ('Youthnet' a'r 'British Youth Council' (2006); *Respect? The Voice behind the Hoodies.*)

Am fwy o wybodaeth ynghylch ymgyrch Barnardo's, ymwelwch â: www.barnardos.org.uk



Cynhadledd sgiliau gwaith chwarae genedlaethol gyntaf Cymru

Pwysleisiodd Comisiynydd Plant Cymru bwysigrwydd y sector gwaith chwarae i hawliau plant yng Nghymru trwy gadeirio *Derbyn y Clod*, y gynhadledd sgiliau gwaith chwarae genedlaethol gyntaf yng Nghymru, ddechrau fis Rhagfyr.

Yn ystod yr un digwyddiad, gwelwyd lansiad swyddogol Gwaith Chwarae Cymru, y ganolfan genedlaethol dros addysg a hyfforddiant gwaith chwarae, gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths AC.

Nod *Derbyn y Clod*, gafodd ei chynnal ar adeg o newid sylweddol ym myd datblygu sgiliau a chymwysterau, oedd sicrhau bod pob cyfranogwr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfleoedd addysg a hyfforddiant gwaith

chwarae yng Nghymru yn y dyfodol. Yn ogystal, cyflwynwyd canfyddiadau'r ymchwil i ddatblygu'r gweithlu gwaith chwarae 'Ble Wyt Ti?' – gweler tudalen 15 am fwy o wybodaeth.

Trefnwyd *Derbyn y Clod* ar y cyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu a Hamdden Heini, a Chwarae Cymru, y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant.

www.gwaithchwarae.org.uk



SkillsActive

Aelodaeth Chwarae Cymru

Pam ymaelodi â Chwarae Cymru?

Ymunwch â ni ac ychwanegu eich llais i'n gwaith – mae Chwarae Cymru'n fudiad aelodaeth er mwyn inni allu cynrychioli'r rheini sydd â diddordeb mewn chwarae plant a darpariaeth chwarae yng Nghymru. Byddwn yn ymgynghori gyda'r aelodau i hysbysu ein gwaith.

Mae buddiannau bod yn aelod o Chwarae Cymru'n cynnwys: gwiriadau Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) rhad ac am ddim ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth chwarae wedi ei reoleiddio; gostyngiadau ar gyfer cynadleddau a seminarau; postio rhad ac am ddim pan brynwch ein cyhoeddiadau; efwletinau'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ariannu, ymgynghoriadau, newyddion a swyddi; a mynediad i dudalennau gwe arbennig.

Prisiau:

Unigolion:	£10
Sefydliadau – un aelod llawn amser o staff neu lai:	£25
Rhyngwladol:	£25
Sefydliadau – mwy nag un aelod llawn amser o staff:	£50
Masnachol/preifat:	£75
Awdurdodau Lleol:	£100

**Am fwy o wybodaeth ac i ymuno, ymwelwch â:
www.chwaraecymru.org.uk
neu ebostiawch.aelodaeth@chwaraecymru.org.uk**

Canllawiau 'Fields in Trust'

Mae *Planning and Design for Outdoor Sport and Play* (PAD) yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer unrhyw un sydd ynghlwm â darparu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a chwarae awyr agored – boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol – at ddefnydd gan bob adran o'r gymuned.

Mae'r ddogfen hon, a gyhoeddwyd gan 'Fields in Trust' (y 'National Playing Fields Association' gynt), yn disodli pob argraffiad blaenorol o *The Six Acre Standard* ac mae'n parhau i gefnogi'r argymhelliad gwreiddiol bod angen chwe erw o dir adloniadol ar gyfer pob mil o bobl.

Mae hefyd yn darparu fframwaith manwl o faterion sy'n ymwneud â swm, safon a hygyrchedd, pwysigrwydd

asesiadau a safonau lleol a'r agenda cynladwyedd.

Bydd diweddiadau ac atodiadau blynyddol i PAD ar gael trwy danystriffiad er mwyn sicrhau bod y llawlyfr hwn yn cael ei ddiweddarau'n barhaus a'i fod yn cadw lan gyda syniadau a deddfwriaethau cyfoes. Bydd crynodeb atodol o ganllawiau cynllunio yng Nghymru ar gael yn rhad ac am ddim yn y gwanwyn.

www.npfa.co.uk



MANNAU I Hoff Fannau Chwarae Plant

Pan fyddwn yn meddwl am fannau i chwarae, yn aml iawn byddwn yn meddwl am ardaloedd chwarae penodedig mewn parciau a mannau cyhoeddus.

Gofod yw hwn sydd wedi ei gynllunio gan oedolion gydag anghenion plant a phobl ifanc mewn golwg (weithiau mewn ymgynghoriad â phlant) ond wastad gyda chyfyngiadau wedi eu gosod gan oedolion o ran gofod, yswiriant, rheolau neu gyllidebau.

Ond os y byddwn yn meddwl am ein hoff fannau ni i chwarae pan yn blant, bydd llawer ohonom yn cofio amgylcheddau oedd yn wylt, wedi eu esgeuluso, heb eu cyffwrdd na'i ymweld gan oedolion, ar gyrion mannau cyhoeddus.

Mannau oedd y rhain ble y gallem ddyfeisio neu greu ein byd bach ein hunain, ble roedd y cyfyngiadau'n ddim i wneud ag oedolion ond yn fwy dibynnol ar ein gallu ein hunain a'r lleoliad.

Er bod yr amgylchedd adeileddig neu ddiwydiannol/amaethyddol heddiw'n tueddu i lywodraethu, mae digon o'r mannau hyn yn dal i fodoli ac mae plant yn dal i'w defnyddio. Mae llawer ohonom yn cau llygod ar hyn, ond weithiau ni chaff mannau chwarae wedi eu hadeiladu gan blant eu goddef gan y rheini sy'n gyfrifol am y tir, a bydd y chwarae sy'n digwydd yno'n tueddu i gael ei ystyried fel niwsans a allai arwain at drosedd. Ond cyn inni famu, bydd angen inni aros a meddwl:

Weithiau bydd mannau chwarae sydd wedi eu hadeiladu gan blant yn ddigon hyll, maent yn tramgwyddo'n erbyn ein syniad o drefn neu harddwch – yn aml byddwn yn defnyddio'r esgus eu bod yn beryglus er mwyn eu chwalu. Ond pwy sydd i ddweud bod syniad oedolyn o harddwch neu drefn yn fwy dilys na barn plentyn? Mae plant yn aelodau o'n cymunedau hefyd.

Fydd plant a phobl ifanc ddim yn adeiladu'r mannau hyn am eu bod eisiau bod yn boen; byddant yn eu hadeiladu gan fod ganddynt ysfaf gynhenid i greu eu hamgylchedd chwarae eu hunain. Bydd plant dros y byd i gyd yn adeiladu cuddfannau, ac mae'n siŵr eu bod wedi gwneud hynny ers iddynt fodoli ar y ddaear.

Pe byddem yn myfyrto ar ein barn gyntaf, efallai y byddem yn sylweddoli, yn hytrach na mynd ati'n bwrpasol i chwalu'r amgylchedd, bod plant yn ei addasu mewn modd adeiladol i gwrdd â'u anghenion chwarae. Ar yr un pryd, maent yn bod yn ddyfeisgar – gan ailgylchu neu aildefnyddio eitemau y mae oedolion wedi eu taflu gan nad oes defnydd iddynt. Gwneir ymdrech fawr er enghraifft i adeiladu rampiau i seiclo drostynt, cuddfannau, pontydd a thai pen coed – ac nid dim ond ymdrech gorfforol, ond hefyd ymdrech feddyliol ac emosiynol – cynllunio,

cydweithredu, cyfaddawdu a dyfeisgarwch hefyd.

Heddiw, mae bywydau plant yn tueddu i fod wedi eu amserlennu'n fanylach a'u harsylwi fwyfwy gan oedolion nag erioed o'r blaen. Felly mae mannau 'cyfrinachol' ble y gallant greu eu hamgylchedd chwarae eu hunain, draw oddi wrth, neu ar gyrion, golwg oedolion, o werth a phwysigrwydd aruthrol. Dengys gwaith ymchwil bod bechgyn yn enwedig yn chwilio am ac yn elwa o fynediad i ofod a chwarae sydd ychydig 'yn ddiarffordd'.

Os yw'r man y mae plant wedi ei ddewis i chwarae'n debygol o fod yn beryglus, er enghraifft wedi ei lygru gan wastraff gwenwynig neu o dan glogwyn rhydd, yna bydd angen inni weithredu a'u cynorthwyo mewn modd sensitif i symud i rywle arall. Yn aml, bydd plant wedi gwneud eu gorau i glirio'r safleoedd eu hunain a lleihau unrhyw risg – ond efallai y bydd rhai peryglon nad ydynt yn ymwybodol ohonynt, a dyma pryd y bydd angen ein ymyrraeth ni. Bydd angen inni ddefnyddio synnwr cyffredin – gall tyllu mewn pridd neu dywod er enghraifft, neu gwympo coed aeddfed, fod yn berygl bywyd, ond fydd fawr ddim perygl i addasu ardal trwy greu rampiau pridd neu lwybr arbennig ar gyfer beiciau bmx.

Fe siaradom gyda Steve Scott o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yng Nghymru am lwybrau beiciau, cuddfannau ac adeiladau 'diarffordd' eraill plant a phobl ifanc. Dywedodd: "Mae'r HSE yn hynod o gefnogol o blant yn chwarae a byddem yn argymhell magu agwedd synnwr cyffredin. Mae plant fydd yn creu eu lwybrau bmx a'u neidiau beiciau eu hunain gan amlaf yn dda iawn am gyflawni eu asesiadau risg eu hunain! Fel rhywun sydd wedi torri pont ei ysgwyd yn y gorffennol, rwy'n ymwybodol bod peryglon. Ond, rwy'n credu bod y buddiannau'n llawer mwy."

Mae Comisiwn Coedwigaeth Lloegr yn rheoli ardaloedd eang o dir sy'n agored i'r cyhoedd – mae'n annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r goedwig, ac mae ganddynt gyfres o ganllawiau i helpu eu swyddogion i benderfynu os y dylent ymyrryd ble fo cuddfannau, siglenni rhaff ac adeiladau eraill a godwyd gan blant – eu chwalu neu eu symud fydd y peth olaf y dylid ei wneud. Ceir dolen i'w dogfen isod.

Yn 2004, argymhellodd Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai L.I.C.C. weithredu i warchod 'pocedi ac ardaloedd o dir agored, tir diffraith a choetir, yn enwedig mewn ardaloedd dinesig, ble y mae plant a phobl ifanc yn chwarae eisoes'. Rydym yn dal i aros am gyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol Cynllunio (TAN) 16, ble y caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu o bosibl. Roedd ymateb Chwarae Cymru i'r ymgynghoriad ar y TAN yn tanlinellu'r angen am amddiffyniad o'r fath.

Yn y cyfamser, gall defnydd plant a phobl ifanc o dir preifat (a cheir nifer o enghreifftiau o hyn yng Nghymru) fod yn ddadleuol. Mae'r deddfau tresmasu'n golygu y gall tîrfeiddianwyr weithredu i



CHWARAE



atal plant rhag mynd ar eu tir. Mae'r ofn hawliadau am iawndal yn dilyn anaf yn golygu bod rhai tiffeddianwyr, fu unwaith yn ddigon parod i adael i blant fynd ar eu tir, bellach yn anfodlon i adael i hyn ddigwydd.

Mewn un enghraifft y gwyddom amdani, mae cwmni yswiriant yn berchen ar ardal o goetir Cymreig fu unwaith yn erddi tŷ gwledig (sydd bellach wedi ei ddimychwel) – mae'r safle'n fuddsoddiad i'r cwmni. Mae ansawdd y cyfleoedd chwarae gaiff eu cynnig gan y planhigion sydd wedi tyfu'n wyllt a'r hen lwybrau'n wych, a bydd plant lleol yn chwarae yno [dyw hyn ddim yn beth newydd – hyd yn oed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y tŷ gwledig yn gyrchfan brysur i'r gymuned, byddai plant yn sleifio i mewn i greu cuddfannau yno].

Y llynedd cododd plant gwprwl o siglenni rhaff a chreu llochesi ar y tir – gan fynd i mewn i'r safle trwy dwll yn y ffens. Roeddent yn llawn cyffro o gael man 'cyfrinachol' yr oeddent wedi ei greu eu hunain ar gyfer chwarae – roeddent yn treulio pob munud posibl yno. 'Doedd yr hyn yr oeddent wedi ei adeiladu'n gwneud dim gwahaniaeth amlwg i'r tir ond eto o fewn wythnosau roedd weiren bigog wedi ei gosod dros y twll yn y ffens i rwystro pobl rhag mynd i mewn.

Mae meysydd chwarae antur wedi eu staffio yn ceisio gwneud yn iawn am gollir math yma o gynefinoedd chwarae. Maent yn fannau ble y gall plant a phobl ifanc greu eu hamgylcheddau chwarae eu hunain – ble y ceir oedolion sydd wedi eu cyflogi i'w cynorthwyo pan fyddant ei angen, ac i warchod y gofod ar eu

rhan. Ond prin iawn yw meysydd chwarae antur, mae'n cymryd amser ac arian i'w greu; syniad amgen yw amddiffyn a gwarchod manau ble y mae plant eisoes yn dewis chwarae'n annibynnol yn ein cymunedau, a 'chau ein llygaid' neu hyd yn oed eu cefnogi i wneud hynny. (Gweler yr erthygl ar Rodwyr Chwarae ar dudalen 13).

Mae cyfranogaeth plant mewn cymunedau ac mewn prosesau gwneud penderfyniadau'n uchel ar yr agenda, nid yn unig gan y gwasanaethau plant ond hefyd gan lywodraeth leol a chenedlaethol. Mae plant 'yn meddwl drostynt eu hunain' trwy lunio a chreu eu amgylcheddau eu hunain ar gyfer chwarae yn gyfranogaeth – plant yn gweithredu ar eu hawl i chwarae a bod yn asiantau i sicrhau ei fod yn digwydd. Yr unig bryd y bydd angen i oedolion ymyrryd fydd pryd y gall ein eiriolaeth, ein swyddogaeth a'n arbenigedd, amddiffyn plant rhag niwed neu warchod y lleoliad a'u chwarae.

Adeiladodd plant a phobl ifanc eu llwybr beiciau bmx eu hunain ar dir diffaith o eiddo'r Cyngor mewn un ardal awdurdod lleol ym Mhrydain. Ar y dechrau, cafodd hyn ei ystyried yn ddiinstriol, ac aeth y Cyngor ati i chwalu'r twmpathau a'r pantiau yr oedd y plant wedi eu greu. Gyda chefnogaeth oedolion oedd yn gyfarwydd â phrosesau gwleidyddol ac allai eiriol ar eu rhan, llwyddodd y plant a'r bobl ifanc i gael eu llwybr beiciau wedi ei roi'n ôl ac mae'n bodoli hyd heddiw.

Dim ond un agwedd o ddarpariaeth chwarae yw meysydd chwarae – mae ystod o fesurau y gallwn eu cymryd (waeth os ydym yn athrawon, yn rieni, yn weithwyr chwarae, yn wleidyddion neu'n gynllunwyr) allai gefnogi chwarae plant yn y gymuned. Weithiau, dim yr amgylchedd fydd angen inni ei newid – gall plant ei newid drostynt eu hunain – ond yn hytrach ein hymateb i blant yn chwarae.

Gwybodaeth ychwanegol

Canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth:

Rope swings, dens, treehouses and fires - A risk based approach for managers facilitating self-built play structures and activities in woodland settings.
www.forestry.gov.uk/pdf/fce-rope-swings-dens-fires.pdf

Barn gyfreithiol am sefyllfa rhai sy'n cael eu herlyn am esgeulustod ble fo chwarae wedi arwain at anafiadau:
www.playlink.org/articles/?p=8

Dysgwch am y sefyllfa gyfreithiol ar gyfer plant yn defnyddio tir preifat ar: en.wikipedia.org/wiki/Trespass ac en.wikipedia.org/wiki/Freedom_to_room

Am ddiffiniad o faes chwarae antur, ymwelwch â'r adran Mannau Chwarae: www.chwaraecymru.org.uk

Cewch gyngor ar sut i greu neidiau pridd ar:
[www.wikihow.com/Build-Dirt-Jumps-\(BMX/Hard-Tail\)](http://www.wikihow.com/Build-Dirt-Jumps-(BMX/Hard-Tail))



CREU MANNAU DA I CHWARAE

Arferai Sue Gutteridge fod yn Swyddog Datblygu Chwarae dros Gyngor Stirling yn Yr Alban. Mae wedi ennill enw da trwy Brydain fel llysgennad creadigol, di-lol sy'n canolbwyntio ar chwarae a mannau da i blant chwarae. Yma mae'n rhannu rhai o'i meddyliau:

Mae Cyngor Stirling wedi ennill enw da'n genedlaethol am ei fannau chwarae cyhoeddus dyfeisgar a diddorol. Bu creu'r mannau chwarae hyn yn frwydr hir a olygodd herio a newid y ffyrdd arferol o wneud pethau.

Mae'n gred gyffredinol bod y mwyafrif o fannau chwarae cyhoeddus yn y DU yn ofnadwy – mannau diflas, diwerth y mae plant wastad yn dweud wrthym nad ydyn nhw'n mwynhau chwarae ynddynt (ddim am hir iawn beth bynnag) a'n bod ni oedolion, mewn sesiynau 'cof chwarae' diddiwedd, yn dal i atgoffa ein hunain nad oedden ni'n hoffi chwarae ynddynt chwaith. A 'does gennym ni fawr ddim awydd i fynd iddyn nhw gyda'n plant ein hunain. Rwy'n sicr bod disgrifiad Martin Amis o 'Dogshit Park' yn ei nofel *The Information* yn atseinio gyda phob un ohonom:

Every father knows the loathed park and playground in the unmoving air of Sunday morning (every mother knows it Friday evening, Tuesday afternoon – every other time), the slides and see-saws and climbing frames like a pictogram of inanity. The fathers on the edge of benches, or strolling, or bending and peering; this is their watch. They exchange slow nods of resignation and hear the wall of childish sound from which no sense is detachable: its twangs and pops and whipcracks ...

Yn aml, bydd mannau chwarae cyhoeddus yn ymddangos fel plant anniben – yn isddosbarth o fannau agored cyhoeddus – enghraifft arall o doethair Kenneth Galbraith '*private affluence, public squalor*'.

Ond eto, ar yr un pryd, mae mannau chwarae cyhoeddus rhywsut wedi ymgripiu i mewn i'n ymwybod ac i mewn i bolisi cyhoeddus fel cyfryngau ar gyfer uchelgeisiau gormodol ac afrealistig. Rydym yn disgwyl iddynt adfywio cymdogaethau tlawd, cwtogi graddfeydd troseddu, creu ymdeimlad o gymuned. Mae hyn wedi ailgyfeirio sylw, egni ac adnoddau i gyfeiriad yr amcanion anghyraeddadwy hyn trwy ganolbwyntio ar bwysigrwydd dyfeisio 'strategaethau' a 'phartneriaethau' sy'n 'trawstori', sy'n 'gydlynol' ac sy'n holl-gynhwysol rhwng unrhyw wasanaeth neu sefydliad sydd â



Hawffrait y Llun – Sue Gutteridge

geiriau megis 'plant', 'ieuenctid', 'cymdogaeth' a 'chymuned' yn y teitl. Ceir ymrwymiad i brosesau 'ymgyngori', 'ymwneud', 'cyfranogaeth' neu 'alluogi' mwymwy cymhleth a dyrys. Mae'r canlyniad yn tynnu sylw oddi wrth y cwestiwn go iawn a llawer symlach sef: sut i greu mannau da ar gyfer chwarae ac edrych ar eu hól yn iawn.

Mae'n wir bod parciau a mannau chwarae cyhoeddus, ers blynyddoedd, wedi cael eu hamddifadu o arian, ac mae hyn wedi cyfrannu at eu cyflwr gwael. Mae'r addewid o symiau mawr o arian ar gyfer meysydd chwarae (yn Lloegr os nad yng Nghymru a'r Alban) trwy raglen Chwarae Plant Cronfa Loferi FAWR, ac yn ddiweddaraf trwy Gynllun Plant Llywodraeth San Steffan, yn cynnig cyfle gwych i sicrhau newidiadau yn Lloegr. Ond, mae'n fwy na thebyg y caiff y cyfle hwn ei wastraffu oherwydd na chaiff y cwestiwn go iawn a symlach hwnnw ei ofyn.

Bydd yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd yn buddsoddi £235 miliwn mewn chwarae yn Lloegr rhwng 2008 – 2011. Mae cyfran helaeth o'r cyllid hwn ar gyfer 'ardaloedd chwarae cyhoeddus newydd cyffrous' ym mhob awdurdod lleol yn Lloegr. Mae'r DCSF yn cydnabod nad dim ond adnewyddu'r hyn sydd yno eisoes neu greu mwy o'r un peth sydd ei angen, ac maent am i bethau gael eu gwneud yn wahanol.

I'r perwyl hwn, aeth ati i gyhoeddi ar y cyd â Play England, a gyda'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ganllaw ar



gyfer gwario'r arian yma – *Design for Play: A guide to creating successful play spaces*. Mae hwn wedi ei ysgrifennu'n dda, wedi ei ymchwilio'n drylwyr a'i gynhyrchu ar ffurf deniadol, ond ei fod, fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, yn ganllaw dylunio. Tra ei bod hi'n ddigon gwir bod mannau chwarae yn y DU yn y gorffennol wedi bod yn fannau heb fawr ddim dylunio'n perthyn iddyn nhw, nid dyma'r unig broblem o bell ffordd. Nid yn unig hynny, ni ellir mynd i'r afael â'r mater o ddylunio ar ei ben ei hun gan ei fod yn gysylltiedig â'r ffactorau diwylliannol, strwythurol a threfriadol sydd yr un mor allweddol wrth ein helpu neu ein rhwystro rhag creu mannau da a gofalu amdanynt yn gywir.

Felly sut gafodd ardaloedd chwarae dyfeisgar a deniadol Cyngor Stirling eu creu? Y man cychwyn allweddol fu argyhoeddiad – gweledigaeth o'r hyn yr ydym ei eisiau. Dros amser, gan gyfeirio at waith a wnaethpwyd mewn gwledydd eraill – yn enwedig Denmarc a'r Almaen – ac mewn sefyllfaoedd eraill, megis meithrinfeydd, ysgolion a meysydd chwarae antur wedi eu staffio, a thrwy ddysgu trwy'r amser o'n profiadau ein hunain wrth inni geisio troi ein credau'n wirionedd, tyfodd y weledigaeth hon yn gyfres o egwyddorion mannau chwarae. Rydym yn credu y dylai mannau chwarae:

- Gael eu dylunio gydag anghenion a nodweddion y gymuned leol mewn golwg wrth ddynodi lleoliadau ac ystodau defnydd a defnyddwyr tebygol, a bod â chymeriad lleol penodol o ran y cynllun, y deunyddiau a'r nodweddion penodol gaiff eu cynnwys. Er enghraifft, pe bai'r maes chwarae mewn ardal o chwarellechi, byddai llechi lleol yn cael eu defnyddio yn y cynllun.
- Parchu a gwneud y defnydd gorau o nodweddion naturiol y safle, megis gwahanol lefelau, coed sydd yno eisoes neu nentydd a phyllau naturiol, gan gydnabod bod y safle a'r cyd-destun yn gyffredinol yr un mor bwysig â nodweddion chwarae unigol wrth greu gofod chwarae llwyddiannus.
- Cynnwys deunyddiau chwarae a nodweddion chwarae sydd ddim yn gyfarwyddol ac sydd, o'r herwydd, yn annog dychymyg ac sy'n awgrymu llawer o wahanol ffyrdd y gellid chwarae arnynt neu gyda hwy – megis planhigion, coed wedi cwmpo, boncyffion, cerrig mawr, deunyddiau 'rhydd' megis tywod, dŵr neu gerrig mân.
- Peidio â dibynnu'n bennaf ar offer chwarae gwneuthuredig ar gyfer y cyfleoedd chwarae sydd ar gael a sicrhau pryd y caiff offer chwarae ei ddefnyddio y caiff ei integreiddio gyda, a'i fod yn cyfannu, nodweddion eraill y safle.
- Ymgorffori cyfleoedd i blant wynebu neu greu her a risg – sy'n allweddol ar gyfer datblygiad iach plant – mewn cyd-destun 'digon diogel'.

Daeth yn amlwg yn fuan y byddai'n amhosibl i roi'r egwyddorion hyn ar waith heb newidiadau strwythurol a threfriadol sylweddol i'r modd y câi mannau chwarae cyhoeddus eu rheoli. Roedd y newidiadau hyn, a ddigwyddodd yn raddol (neu'n hytrach trwy broses athreuliol) ac yn ddigon manteisiol i ni, yn cynnwys newid yn y modd y câi ardaloedd chwarae eu dylunio ac i'r broses bwrcasu, a newidiadau i'r modd y câi mannau chwarae eu gofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw.

Y cam allweddol cyntaf oedd gwahanu'r broses dylunio oddi wrth y broses cyflenwi a/neu osod offer chwarae yn llwyr, gan gynnwys pennu cyllideb ar gyfer talu ffioedd dylunio profesiynol. Bydd gwneuthurwyr offer chwarae'n honni'n barhaus y gallant dylunio mannau chwarae, ac wrth wneud yr honiadau hyn byddant yn esgus eu bod yn cefnogi buddiannau agwedd wedi ei seilio ar dirwedd yn hytrach nag agwedd wedi ei seilio ar offer, ac addo

cynnwys nodweddion naturiol a nodweddion sydd ddim yn safonol (megis cerrig mawr, boncyffion, neu blanhigion). Gwnaethpwyd ymdrechion niferus, trwy bapurau briffio a thrafodaethau manwl, i gael gwneuthurwyr offer chwarae i wneud hyn, ond heb unrhyw lwyddiant. Mae llawer o offer chwarae gwych ar gael, ond mae ei werth yng nghyd-destun y safle fel cyfanwaith, ac mae'n amlwg na fydd gwneuthurwyr offer chwarae am ddylunio safleoedd sy'n defnyddio llai yn hytrach na mwy o offer. A fyddan nhw ddim yn debygol ychwaith o gynnwys offer gan wneuthurwyr eraill.

Ond, nid yw cael yr egwyddorion sy'n hysbysu'r cynllun a chael y broses gynllunio'n gywir, yn ddigon ynddo'i hun. Yn Stirling, fel mewn nifer o ardaloedd eraill, roedd gofalu am fannau chwarae'n cael ei rannu rhwng gwahanol dimau wedi eu lleoli mewn gwahanol wasanaethau o'r cyngor. Roedd un fim o bobl yn archwilio ac yn gofalu am yr offer chwarae, tra bo'r gwaith o 'gynnal a chadw'r tir' (torri gwair, a gofalu am blanhigion) yn cael ei gyflawni gan dîm arall mewn gwahanol wasanaeth o'r cyngor fel rhan o'u cyfrifoldeb am fannau glas yn gyffredinol, ac roedd casglu sbwriel yn gyfrifoldeb fim a gwasanaeth arall eto. Roedd gadael clytiâu o laswellt hir, creu llwybrau wedi eu strimio, torri gwair ar dwmpathau bychain, hybu ardaloedd blodau gwyllt, gofalu am goed ifanc, tocio drysfeydd o goed helyg ac yn y blaen, i gyd yn bethau na allai neu na fyddai'r fim cynnal a chadw tir yn ei wneud. Ac eto, y pethau hyn yw einioes y mathau o fannau chwarae yr oeddem am eu creu. Y rhain yw'r pethau sy'n sicrhau'r newid, y datblygiad a'r elfennau tymhorol sy'n golygu bod safle'n ddynamig yn hytrach na'n ddiwerth, ac sy'n dal sylw y rheini sy'n defnyddio'r safle chwarae trwy'r amser. Yr ateb yn Stirling oedd creu Tîm Mannau Chwarae arbennig, aml-ddisgyblaeth allai ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw cyflawn ar bob safle, ac fel rhan o'r broses gynyddu eu gwybodaeth leol am bob safle a'u perthynas gyda'r gymuned leol.

Efallai y bydd mannau chwarae o'r fath yn gofyn i'r rheini sy'n gyfrifol am eu cynllunio a'u rheoli i arddangos fersiwn o'r un creadigedd, yr ymdeimlad o bwrcasu, y dyfalbarhad, y broses o lunio barn a'r mentro yr ydym am ei annog ymhlith y plant fydd yn eu defnyddio. A 'does yr un llawlyfr na rhestr wirio all wneud hyn ar ein rhan.

Sue Gutteridge

Caiff gwaith Sue ar fannau chwarae cyhoeddus Stirling ei ddisgrifio gan amlaf fel 'gwaith sy'n torri cwys newydd'. Dros gyfnod o 20 mlynedd – ac sy'n parhau – mae Sue wedi hyrwyddo agwedd ddyfeisgar sy'n ystyried ardaloedd chwarae cyhoeddus fel rhan o sbectrw m o ddarpariaeth a chyfleoedd ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau. Mae'r broses o dylunio ac ail-ddylunio mannau chwarae newydd a phresennol Cyngor Stirling a'u 'cynnal a'u cadw datblygiadol' parhaus yn broses ddynamig sy'n creu mannau dynamig, yn broses sy'n cynnwys llawer o bobl a grwpiau ac yn broses sydd filoedd o filltiroedd i ffwrdd o'r byd o fannau chwarae catalogau cyfarpar.

Mae gwaith Sue wedi ei wreiddio mewn profiadau a ddatblygwyd ac a fireiniwyd yn y sector cyhoeddus, sy'n profi'n ddiagramheuol nad yw dewrder, argyhoeddiad a gwybodaeth yn rinweddau sy'n cael eu mygu'n awtomatig o fewn y wladwriaeth leol. Mae Sue'n meddu ar brofiad cyfoethog o sut i wneud i bethau ddigwydd yn y byd go iawn o reoliadau a chyllidebau cyfyng awdurdodau lleol, sut i weithio'n effeithlon gyda chymunedau a sut i gynnwys plant mewn modd ystyrlon yn y broses o dylunio a chreu mannau chwarae.

**Mae Sue bellach yn gweithio fel aelod cyswllt o Playlink.
www.playlink.org.uk**



DESIGN FOR PLAY:

a guide to creating successful play spaces

Mae Aileen Shackell yn Bensaer Tirwedd o'r Alban a gyfranodd at *Design for Play: a guide to creating successful play spaces* a gyhoeddwyd yn ddiweddar:

Sut allwn ni ddarparu ar gyfer chwarae cynhwysol? Ydyn ni angen ffens? Allwn ni gael tywod a dŵr? Dyma ddim ond rhai o'r cwestiynau gaiff eu gofyn yn rheolaidd gan bobl sydd ynghlwm â chomisïynu ardaloedd chwarae.

Cyd-destun

Mae meysydd chwarae plant yn y DU'n aml iawn yn edrych yn hynod o debyg i'w gilydd, waeth ble y maent wedi eu lleoli. Yn amlach na pheidio, maent yn cynnwys cymaint â phosibl o offer sefydlog wedi ei amgylchynu gan arwyneb 'diogelwch' rwbwr mewn ardal wastad â ffens o'i amgylch. Bydd y meysydd chwarae traddodiadol hyn gan amlaf yn darparu ar gyfer ystod digon cyfyng o brofiadau chwarae a chyfyng iawn fydd eu apêl i blant hyn.

'Chwarae Naturiol'

Darperir orau ar gyfer chwarae gan amgylcheddau ble y caiff plant a phobl ifanc gymaint o hyblygrwydd a rhyddid â phosibl – yn y modd y byddant yn chwarae, a'r hyn y byddant yn ei wneud pan fyddant yn chwarae.

Mae llawer o bobl bellach yn ymwybodol nad yw'r maes chwarae traddodiadol yn cynnig i rhyddid yma ac maent yn chwilio am fodel darpariaeth chwarae amgen, sy'n egluro'r diddordeb cynyddol a welir yn yr hyn gaiff ei alw'n 'Chwarae Naturiol' – neu fagu agwedd sy'n 'seiliedig ar dirwedd'. Golyga hyn greu mannau chwarae sydd wedi eu cynllunio i fod yn fannau deniadol yn eu hunain – yn hytrach na dim ond casgliad o offer y tu mewn i ffens – ac sydd wedi eu dylunio i gyfannu, a chael eu cyfannu, gan eu lleoliad.

Mae mannau chwarae sy'n integreiddio offer gyda'r tirwedd o'i amgylch yn creu amgylchedd chwarae llawer mwy deniadol, ond yn bwysicaf oll maent yn cynnig cyfuniad llawer mwy cyfoethog o gyfleoedd chwarae, ac yn cynnal diddordeb plant am gyfnod hwy o lawer na'r hen fodel.

Camau cyntaf

Mae *Design for Play* yn amlinellu **deg**



Uchod: Hawlfraint y Llun – Cyngor Stirling
Isod: Hawlfraint y Llun – Nicola Butler



egwyddor ar gyfer dylunio mannau chwarae llwyddiannus. Er ei fod yn fframwaith hynod o ddefnyddiol ar gyfer unrhyw un sydd ynghlwm â chreu ardal chwarae newydd, neu adnewyddu hen un, efallai y bydd y rhestr yma braidd yn ddychrynlyd! Mae mannau chwarae gaiff eu dylunio ar ffurf tirwedd yn greadigaethau cymhleth, a cheir llawer o wahanol heriau all atal pobl rhag rhoi tro ar agweddau newydd – pryderon ynghylch cynnal a chadw; bod yn fwy tebygol o gael eu dwyn i gyfraith; a phwysau gan yswirwyr i osgoi gwneud unrhyw beth gwahanol o unrhyw fath!

Mae'n iawn i roi tro ar syniadau newydd ac mae'n allweddol inni ystyried hyn fel proses barhaus sy'n esblygu.

Felly ble ddylen ni ddechrau?

Ceir ychydig o bethau gweddol syml y gallwn roi tro arnynt er mwyn dechrau'r daiith tuag at ddarparu mannau chwarae sy'n fwy cyffrous, a nodir y rhain isod.

Dysgwch sut y mae'r man chwarae'n gweithio

Cyn ystyried unrhyw welliannau ffisegol i safle, mae'n hanfodol inni ddeall sut y mae'r man chwarae'n gweithio o ddifrif, sut y mae'r gofod yn teimlo'n gyffredinol, ac yn fwy penodol, ei 'addasrwydd' chwarae'.

Bydd tirlunwyr yn cynnal arolwg manwl o'r safle cyn datblygu cynigion i'w newid, fyddai'n cynnwys ystod gyflawn o nodweddion ffisegol y safle. Mewn man chwarae bydd yn arbennig o ddefnyddiol i gynnal gwiriad ar offer allai fod wedi sefyll yno ers cryn amser. Mae arfau megis *Spaceshaper* (sydd ar gael o 'CABE space') yn creu fframwaith defnyddiol ar gyfer edrych ar safle mewn modd beiriadol a chynnwys grŵp cymunedol. O ran dynodi 'gwerth chwarae' y safle, gall yr Offeryn Asesu Ansawdd a ddatblygwyd gan Play England gynnig man cychwyn defnyddiol, er y dylid atgyfnerthu hyn **bob amser** gyda gwylio sut a ble y bydd plant a phobl ifanc yn chwarae o fewn y gofod. Dylai unrhyw gynllun newydd ymgorffori neu gyfoethogi'r hyn y maent yn ei wneud eisoes.

Unwaith ichi ddechrau deall yr hyn sy'n digwydd ar y safle, mae'n bryd ichi ystyried gwneud newidiadau. Gellir cyflawni'r rhain yn unigol, neu mewn unrhyw gyfuniad.

Chwalu'r ffens derfyn

Nid oes un rheol euraid yn bodoli sy'n dweud bod yn rhaid ichi amgylchynu man chwarae gyda ffens. Yn aml caiff ffensys eu codi i gadw cŵn allan ond hefyd i gadw plant i mewn. Weithiau ceir hefyd ffensio mewnol i wahanu grwpiau oedran. Sy'n ddigon dealladwy – ond mae'r ffens yn fodd arall i oedolion reoli sut y bydd plant yn defnyddio gofod awyr agored ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd chwarae plant.



Y buddiannau: bydd gwneud i ffwrdd â ffens o amgylch man chwarae bychan yn gwneud i'r gofod deimlo'n llawer mwy deniadol.

Mae'n bosibl hefyd y gall tynnu'r ffens i lawr helpu i integreiddio'r man chwarae gyda'r ardal o'i amgylch. Gall hefyd helpu iddo gael ei ddefnyddio mewn modd mwy hyblyg; heb ffens, gall man chwarae sydd wedi ei gynllunio'n dda fod yn fan cymdeithasol braf ar gyfer pob grŵp oedran, ond os y bydd ffens o'i amgylch efallai y bydd pobl yn meddwl ddwywaith ynghylch mynd yno.

Ble fo angen ffens pan fo perygl posibl, er enghraifft, wrth ymyl ffordd brysor – meddyliwch am ddefnyddio dull gwahanol o amgylchynu'r safle, megis clawdd o lwyni, neu newid mewn lefel, neu hyd yn oed wal isel o gerrig sychion.

Cofiwch: Os yw cŵn yn peri pryder, yna pan fyddwch yn tynnu'r ffens trefnwch ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth ymysg perchnogion cŵn lleol (gofynnwch am gymorth eich warden cŵn lleol). Yn aml iawn bydd cael digon o gyhoeddusrwydd i un erlyniad am beidio â glanhau ar ôl eich ci yn hynod o effeithiol.

Caiff llawer o fannau chwarae eu hanelu at grwpiau oedran penodol a bydd gwneud i ffwrdd â ffens yn golygu bod hyn yn ofer. Yn aml, codir arwyddion i gadw plant yn eu harddegau allan, fydd yn ddigon parod i ymgynnull mewn mannau sydd wedi eu hanelu at blant ifanc iawn pan nad oes darpariaeth ar eu cyfer hwy. Mae'n well cynnwys y grŵp oedran hwn mewn modd cadarnhaol yn hytrach na gwahaniaethu yn eu herbyn.

Cyflwyno arwyneb rhydd

Caiff symiau mawr o arian eu gwario ar arwyneb 'diogelwch' rwyber, cynnyrch y mae ei effeithlonrwydd bellach yn cael ei amau, sydd â fawr ddim neu ddim ond ychydig bach iawn o werth chwarae ynddo'i hun, ond sydd wedi tyfu'n hynod o boblogaidd oherwydd ei fod yn ymddangos yn rhydd i'w gynnal a'i gadw a'r posibilrwydd o gynnwys lliwiau



Hawffraint y Llundun – Cynog Stirling

llachar neu batrymau, nodweddion sy'n dal llygad llawer o gleientiaid (a rhieni/gofalwyr). Fodd bynnag, mae defnyddio arwyneb rhydd, megis tywod, graean, neu risgl chwarae, yn llawer mwy addas ar gyfer chwarae arno ac yn fwy poblogaidd na'r gred gyffredin.

Y buddiannau: Mae arwynebau rhydd yn dyblu'n hynod effeithiol fel arwyneb sy'n clustogi unrhyw wrthdrawiad o fewn Ardaloedd Cwmpiaidau Peryglus, ac fel nodwedd chwarae ynddo'i hun, gan helpu i ddarparu chwarae creadigol, rhywbeth sydd fel arfer yn cynnal sylw plant am gyfnod hwy na offer sefydlog. Yn ogystal bydd arwynebau rhydd naturiol fel tywod a rhisgl yn helpu man chwarae i ymdoddi i'r tirwedd o'i amgylch yn llawer mwy effeithiol nag arwyneb rwyber.

Cofiwch: Mae cynnal a chadw arwynebau rhydd yn fwy cymhleth na'r hyn sydd ei angen gydag arwynebau sefydlog – ond mewn man chwarae sy'n anelu i roi blaenoriaeth i anghenion chwarae plant dros rywddineb y gwaith cynnal a chadw – 'does bosibl bod hyn yn broblem? Ar safleoedd mwy heriol, mae'n debyg y bydd angen archwiliadau dyddiol trylwyr i chwilio am eitemau allai fod yn niweidiol.

O ran baw anifeiliaid – pur anaml y bydd cŵn yn baeddu mewn tywod, mae'n well ganddynt laswellt byr. Mae cathod hyd yn oed yn llai tebygol o faeddu mewn tywod, yn enwedig ble y gellir cadw ymylon y tywod yn rhydd o dyfiant prysgwyddog ble y gallant lechu wrth 'helda' neu ddim ond cadw golwg ar yr

hyn sy'n digwydd. Nid oedd llwynogod yn broblem ar unrhyw un o'r safleoedd tywodlyd a archwilyd ar gyfer astudiaethau achos y *Design Guide*.

Ychwanegu planhigion

Prin iawn yw'r mannau chwarae sy'n cynnwys planhigion – ar wahân i wair wedi ei dorri'n fyr. Yn aml iawn caiff planhigion eu hystyried unai'n rhy fregus i'w cynnwys mewn man chwarae, neu'n rywbeth na all fod yn rhan o'r profiad chwarae hyd yn oed.

Y buddiannau: Mae'n bosibl iawn mai planhigion yw'r modd rhywddaf o ychwanegu dimensiwn synhwraidd i fan chwarae – bydd gwedd dail a choesynnau ac arogl blodau'n apelio at synnwyr plant o gyffwrdd ac arogl, a hyd yn oed eu clyw; mae sŵn gwynn yn siffrwdd trwy ddail yn hynod o atgofus. I blant sydd â namau synhwraidd, gall y teimladau hyn drawsnewid eu profiad hwy o'r man chwarae.

Mae plannu'n ffordd wych hefyd o gadw man chwarae'n le diddorol trwy gydol y flwyddyn. Bydd mannau chwarae sydd wastad yn edrych yn union yr un fath yn troi'n ddiflas yn fuan iawn, tra bo mannau chwarae â phlanhigion sy'n adlewyrchu'r tymhorau newidiol yn ymddangos yn wahanol trwy gydol y flwyddyn.

Yn bennaf oll, bydd planhigion – pan fo'r plannu wedi ei gynllunio'n ofalus – yn tyfu'n elfen chwarae bwysig yn eu hunain. Bydd gwneud dim mwy na gadael clytiâu o laswellt hir neu blannu blociau eang o lwyni anffurfiol cryfion yn caniatáu i blant adeiladu cuddfannau, yn ogystal â chynnal gemau o chwarae cuddio – neu ddim ond cynnig man gwahanol ar gyfer eistedd a chael sgwrs.

Cofiwch: Peidiwch â phoeni'n ormodol am y plannu; mae yno i blant chwarae gydag e' ac ynddo!

Dewiswch rywogaethau cryfion fydd yn gwrthsefyll cael ei trin a'u trafod, ac os ydych am blannu coed, yna meddyliwch am goed 'pluog' sy'n llai tebygol o gael eu difrodi.

Casgliad

Felly, dyma ichi rai ffyrdd syml o ddechrau meithrin agwedd sy'n 'seiliedig ar dirwedd' tuag at gynllunio mannau chwarae. Am fwy o syniadau, cymerwch olwg ar *Design for Play*.

Ac efallai, cyn bo hir, bydd mannau chwarae yn y DU yr un mor gyfeillgar i chwarae â rhai ar y cyfandir. Mae lan i bob un ohonom ni i wneud i hyn ddigwydd – fydd hi ddim yn rhydd, ond dewch inni wneud ein gorau, er mwyn plant ym mhobman.

Aileen Shackell

Pensaer tirwedd gyda dros 15 mlynedd o brofiad o ddyfynio mannau agored cyhoeddus. Mae'n rhedeg ei phractis ei hun, sy'n arbenigo mewn chwarae, mannau agored cyhoeddus, a thirweddau hanesyddol.

Gallwch ei eostio ar aileen@asa-landscape.com am fwy o wybodaeth.

Mae 'Design for Play: A guide to creating successful play spaces', gan Aileen Shackell, Nicola Butler, Phil Doyle a David Ball, cyhoeddwyd gan Play England, DCSF a DCMS, ar gael yn rhad ac am ddim gan DCSF Publications, ffôn: 0845 60 222 60; ffacs: 0845 60 333 60; ffôn testun: 0845 60 555 60.

Dyfywch cyf: 00631-2008DOM-EN. Mae ar gael hefyd i'w lwytho i lawr oddi ar wefan Play England.



Cynllunio a Chwarae

Daeth astudiaeth ddiweddar yn y Lancet, a gyflawnwyd gan ymchwilyr mewn dwy brifysgol yn Yr Alban, i'r casgliad bod 'byw wrth ymyl parc, coedwig neu fannau agored eraill yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd'. Argymhellodd yr astudiaeth y dylai Cynghorau gyflwyno mwy o fannau glas er mwyn gwella lles trigolion.

Mae Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008 (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiwedd mis Tachwedd) yn darparu dadansoddiad o les yn erbyn saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r monitor yn cyfeirio at waith ymchwil Draig Ffyni gyda phlant 7 i 10 mlwydd oed oedd hefyd yn pwysleisio gwerth chwarae i blant yng Nghymru – yn enwedig chwarae'r tu allan. Roedd argaeledd mannau awyr agored (tra yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol) yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig.

Mae'n amlwg bod mannau awyr agored yn bwysig, fel darparwyr chwarae, mae angen inni fod yn ymwybodol o fentrau allai ein cefnogi i gwrdd ag anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Dyma rai ohonynt:

Cynlluniau Datblygu Lleol

Newidwyd y system gynllunio yng Nghymru ym mis Hydref 2006 a chyflwynwyd math newydd o gynllun. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar ei newydd wedd, y 'CDLI', yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i gymunedau lleol ymuno yn y gwaith o gynllunio ar gyfer dyfodol eu hardaloedd.

Mae pob un o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, yn y broses o symud draw i'r cynllun ar ei newydd wedd.

Mae canllawiau ar gyfer datblygu'r cynllun yn dynodi bod cyfranogaeth y gymuned wrth galon y system gynllunio newydd. Mae'r modd y bydd angen i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu paratoi'n adlewyrchu hyn, sy'n golygu cyfleoedd newydd a chyffrous ar gyfer cymunedau i helpu i lunio dyfodol eu hardal.

Bydd CDLI yn cynnwys polisïau a chynigion i lywio datblygiad a defnydd o dir yn ardal y cynllun. Bydd rhai ohonynt yn effeithio ar ddatblygu a gweithredu Strategaethau Chwarae a datblygu darpariaeth chwarae.

I ddysgu mwy, ymwelwch â:

<http://new.wales.gov.uk/topics/planning/devplan/?skip=1&lang=cy>

Cytundebau Partneriaeth Awdurdod Lleol (LAPA)

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn y broses o ddatblygu Cytundebau Partneriaeth Awdurdod Lleol (LAPA). Prif fwrdd y LAPA yw creu cytundeb cydlynol gyda phartneriaid awdurdodau lleol, sy'n cydlynu'r ystod amrywiol o raglenni sy'n cael eu trosglwyddo gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd, a thrwy hynny, gynyddu proffil chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd y LAPA yn cynnwys pum thema allweddol:

- Pobl Ieuaic Egnïol
- Cymunedau Egnïol (Oedolion Egnïol)
- Chwaraeon Llwyddiannus a Chenedl sy'n Hoff o Chwaraeon (Perfformiad)
- Datblygu Pobl
- Datblygu Lleoliadau

'Pwysigrwyd y broses hon yw sicrhau bod gweithgarwch corfforol yn tyfu'n rhan fwy annatod o strategaethau allweddol awdurdodau lleol, yn enwedig cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.'

Heledd Bebb,

Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae'r LAPA yn agwedd Awdurdod cyfan a bydd rôl posibl ar gyfer darparwyr chwarae.

Mesur Meysydd Chwarae

Ym mis Gorffennaf 2008, yn dilyn ymgynghoriad, cyflwynodd Dai Lloyd AC, fesur yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu ar gyfer cyfranogaeth cymunedol mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch gwneud i ffwrdd â meysydd chwarae.

Mae'r mesur meysydd chwarae wedi cael ei ail-ddrafftio i gynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad

cyntaf. Y cam nesaf fydd sefydlu pwyllgor i drafod y mesur yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Ceir gwybodaeth am y mesur arfaethedig sydd wedi ei ail-ddrafftio, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ble i ddysgu am y camau nesaf trwy'r ddolen isod:

www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-legmeasures/bus-legislation-meas-pf.htm



Rhodwyr Chwarae – gwneud mannau'n gyfeillgar i chwarae

Un canfyddiad cyhoeddus cyffredin yw na all plant chwarae'r tu allan mwyach ...

Mae rhai cymunedau wedi colli eu hanes o blant a phobl ifanc yn chwarae'r tu allan mewn mannau cyhoeddus, a pho leiaf o blant sy'n chwarae allan, y lleiaf y bydd plant yn chwarae allan.



Mae rhai plant a theuluoedd angen teimlo'n hyderus bod mannau ar gael yn eu cymunedau sy'n dda ar gyfer chwarae cyn y byddant yn mentro allan i chwarae.

Er bod mannau chwarae'n rhoi arwydd y gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'r man hwn i chwarae, weithiau bydd ffactorau'n bodoli sy'n eu hatal – y diffyg plant eraill, sbwriel, baw cŵn, ofn oedolion neu blant hŷn anghyfeillgar neu ysglyfaethus. Gallai digonedd o amgylcheddau eraill yn ein cymunedau fod yn dda ar gyfer chwarae ond maent yn cael eu hesgeuluso gan blant gan nad ydynt yn ddigon hyderus i chwarae yno.

Mae rhodwyr chwarae'n weithwyr chwarae 'llawrydd' – pobl broffesiynol hyfforddedig a chymwysedig sy'n gweithio mewn mannau awyr agored cyhoeddus mewn cymunedau, gan annog a chefnogi plant i chwarae'n rhydd trwy gydol y flwyddyn. Mae presenoldeb rhodiwr chwarae'n rhoi hyder i blant a theuluoedd y gallant chwarae allan. Mae'r plant yn agos at adref a gallant daro'n ôl i'r tŷ fel y dymunant.

Mae rhodwyr chwarae'n amddiffynwyr rhan amser o fannau chwarae i blant – mae eu presenoldeb yn lleihau ofn plant o gael eu bwlio, yn rhoi caniatâd i blant i chwarae ac yn anfon neges i'r gymuned leol bod gan bob plentyn bob hawl i chwarae'r tu allan. Gallai prosiect rhodwyr chwarae dros dro sy'n gweithio dros gyfnod penodol, annog plant i ail-wladychu ardaloedd yn eu cymunedau – cynyddu eu ymdeimlad o'u gallu eu hunain a'u argyhoeddiad bod ganddynt hawl i fod yno, fel pan fydd y prosiect yn gorffen, y bydd y plant yn dal i deimlo'n hyderus mae eu man chwarae hwy yw hwn ac yn dal i'w ddefnyddio.

Mae gan rodwyr chwarae rôl allweddol i'w chwarae hefyd wrth wneud mannau'n gyfeillgar i chwarae – efallai y bydd yn rhan o'u rôl i sicrhau bod y lle'n rhydd o faw cŵn a pheryglon eraill, neu i roi gwybod am ddifrod neu ddiffygion mewn mannau chwarae er mwyn i blant allu cario ymlaen i chwarae yno'n hyderus. Fel gweithwyr chwarae, byddant yn gweithio i gefnogi

pob plentyn a pherson ifanc i greu man ble y gallant chwarae. Efallai y bydd ganddynt offer neu eitemau eraill gyda hwy fydd yn cyfoethogi profiad chwarae plant – er enghraifft ble y bydd plant yn adeiladu cuddfannau, fe allai rhodiwr chwarae chwilio am a darparu llwyth o flychau, rhaffau neu gynfasau er mwyn i blant allu eu defnyddio. Efallai y gallant greu ymdeimlad o ganiatâd o fewn y gofod fel bod y plant yn teimlo bod rhyddid iddynt i wlychu neu faeddu. Efallai y byddant yn cadw llygad ar blant sy'n cynnu eu tanau eu hunain, a chynnig arweiniad iddynt, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed neu ddifrod mawr yn cael ei wneud.

Bydd y rhan fwyaf o blant angen ychydig o gymorth i allu gwneud y gorau o'u hamgylchedd a'r amser rhydd sydd gennynt ar gyfer chwarae, tra y bydd rhai plant yn teimlo bod ambell i amgylchedd a sefyllfa'n eu anablu. Mae gweithwyr chwarae'n gweithredu'n y fath fodd fel eu bod yn cynnwys pob plentyn – ac mae'n bosibl y bydd rhodwyr chwarae'n mynd ati'n weithredol i gysylltu â phlant anabl a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn cael eu chefnogi i chwarae allan hefyd. Mae hon yn agwedd weithredol sy'n helpu i sicrhau bod plant anabl – y mae hyd yn oed mwy o bryderon ynghylch bwlio ac ofnau ynghylch eu natur fregus – yn gallu chwarae allan gyda'u ffrindiau.

Mae prosiectau rhodwyr chwarae'n rhan o ystod o ddarpariaeth chwarae y gall plant fod eu hangen, neu ddewis i'w defnyddio, fel rhan o'u cymuned. Gall rhodwyr chwarae ddarparu gwasanaeth hyblyg ac ymatebol a chefnogi agweddau eraill o ddarpariaeth chwarae fel rhan o agwedd gymunedol hollistig. Gall rhodwyr chwarae annog a chefnogi pob plentyn i ddefnyddio cyfleusterau chwarae awyr agored sy'n bodoli eisoes. Mae rhodwyr chwarae'n un ateb posibl i wneud ein cymunedau'n fwy cyfeillgar i chwarae.

Mae nifer o brosiectau rhodwyr chwarae yng Nghymru, i ddysgu rhagor gweler rhifynnau 21 a 22 o'r cylchgrawn hwn, neu am fwy o wybodaeth cyffredinol, ymwelwch â:
www.playrangers.net



Hyfforddiant i Ddatblygu'r Gweithlu

Mae Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc Cymru a Chynlluniau Unigol Plant a Phobl Ifanc awdurdodau lleol i gyd yn canolbwyntio ar adeiladu gweithlu proffesiynol cymwysedig a chymwys sy'n ateb anghenion plant a phobl ifanc.



Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae DPP arferwyr wedi eu cynnod sefydlu a'u hyfforddiant cychwynnol yn faes allweddol bwysig i sefydliadau a'u staff, ac i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Bydd cyflogwyr gwaith chwarae sydd wedi ymroddi i gyllido a chefnogi DPP yn ennill buddiannau sylweddol:

- Gweithwyr chwarae ymroddedig, brwdfrydig a llawn ysgogiad
- Gweithwyr chwarae sy'n manteisio ar bob cyfle i ddysgu, er mwyn gwella eu perfformiad
- Gweithlu proffesiynol medrus a deallus

Gall meithrin gweithlu trwy gyllidebu a neilltuo amser ar gyfer DPP gynorthwyo gyda chadw staff, mae hefyd yn cynnig hygyrdded proffesiynol a gall wella ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Mae DPP yn gyfrifoldeb ar y cyd:

- Mae'n ofynnol gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae bod gweithwyr chwarae'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn, wedi ei diweddarau o'r broses chwarae. Bydd gweithwyr chwarae'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysg i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth
- Bydd angen i gyflogwyr fynd ati'n weithredol i ddarparu cyfleoedd dysgu priodol yn rheolaidd
- Mae arferwyr sy'n gweithio'n annibynnol neu'r tu allan i sefydliad yn gyfrifol hefyd am eu dysg a'u DPP eu hunain.

Mae cynllun *activepassport* newydd SkillsActive yn offeryn ar-lein fydd yn cynorthwyo gweithwyr chwarae a chyflogwyr i gadw cofnod o'u hyfforddiant a'u DPP.

I ddysgu mwy, ymwelwch â:
www.playworkactivepassport.com

DPP yng Nghymru

Trosglwyddodd Nicole Webber Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) fel hyfforddiant DPP yn Llanharan. Meddai:

Rwy'n credu i'r hyfforddiant P³ yn Llanharan fod yn wych, mae'r dysgwyr wedi gwrandao ar a derbyn cysyniadau a syniadau'r cwrs P³, maent wedi arddangos brwdfrydedd a pharodrwydd arbennig i ddysgu. Wrth gyflawni sesiynau chwarae maent wedi sylweddoli ar y gwahaniaeth y gwnaeth y cwrs a'r effaith sylweddol gafodd hyn ar ansawdd y chwarae. Maent yn sylweddoli y gall plant asesu risg drostynt eu hunain a bellach maent yn teimlo'n hyderus i sefyll yn ôl a chaniatáu i'r chwarae ddigwydd.

Mae tri dysgwr sy'n gweithio mewn ysgol leol wedi rhoi eu dysg ar waith mewn amgylchedd ysgol a newid cyfeiriad y chwarae ar gyfer plant lleol:

'Does dim rhaid inni siarad gyda'r plant 'drwg', dy'n ni ddim yn teimlo fel bod raid inni ddweud eu henwau trwy'r amser a'u plagio o hyd, maent yn mwynhau chwarae a diddanu eu hunain, ac maent yn ymddangos yn fodlon – mae eu hymddygiad wedi newid yn sylweddol.




Ble wyt ti?

Arolwg gweithlu Gwaith Chwarae Cymru

Yn ystod haf 2008 cynhaliodd Melyn Consulting arolwg i ganfod ble y mae pobl sy'n gweithio ym maes chwarae yng Nghymru'n gweithio a pha lefelau o hyfforddiant sydd ganddynt. O'r 453 o bobl a ymatebodd, dywedodd 41% wrthym eu bod yn meddu ar gymhwyster gwaith chwarae cydnabyddedig.

Cymwysterau Gwaith Chwarae sydd gan bobl sydd ynghlwm â chwarae (n=453)


Y rheini sy'n gweithio ym maes datblygu chwarae a hyfforddiant chwarae oedd fwyaf tebygol o feddu ar gymhwyster tra bo'r rheini sy'n gweithio mewn rolau eraill, ond sy'n defnyddio chwarae fel rhan o'u gwaith, yn llai tebygol o fod â chymhwyster gwaith chwarae. Y cymhwyster mwyaf cyffredin yr oedd pobl yn meddu arno oedd yr NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae (10% o'r rhai a ymatebodd)



Mae'r graff ar y dde'n dynodi'r ymateb a gafwyd pan ofynnwyd i'r rhai oedd yn ymateb pa hyfforddiant DPP yr oeddent wedi ei gyflawni. O ystyried bod gofynion rheolaethol yn eu lle, 'dyw'n ddim syndod mai'r hyfforddiant DPP mwyaf cyffredin oedd hyfforddiant cymorth cyntaf, ac yna amddiffyn plant a hylendid bwyd.

Bydd Gwaith Chwarae Cymru'n defnyddio'r dystiolaeth yma i lobio am fwy o gyllid i gael ei glustnodi i gynyddu sgiliau'r gweithlu gwaith chwarae a phroffesiynau eraill sy'n cefnogi chwarae plant.

Rhai a dderbyniodd hyfforddiant ar faterion penodol (% o'r holl rai wnaeth ymateb)





Digwyddiadau

22 Ionawr 2009

Come Out to Play! Making the most of play in school grounds

Birmingham

www.ltl.org.uk

20 Chwefror 2009

Risk it! Changing public play places

Stirling

www.playlink.org

3 – 4 Mawrth 2009

7th Birmingham Playwork Conference

Eastbourne

info@meynellgames.org

28 – 30 Ebrill 2009

26 – 28 Mai 2009

9 – 11 Mehefin 2009

Places for Play Study Tours

Stirling

www.playlink.org

6 – 7 Mai 2009

Ysbryd Chwarae Antur

Holiday Inn, Caerdydd

www.chwaraecymru.org.uk

IPA 2011



Mae'r lleoliad a'r dyddiad ar gyfer cynhadledd yr **International Play Association** wedi eu pennu. Rydym hyd yn oed wedi archebu neuaddau preswyl y myfyrwyr mewn da bryd fel bod llefy ar gael am bris rhesymol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig rhywfaint o gefnogaeth ariannol.

Ein tasgau nesaf fydd:

- Sefydlu Grŵp Ymgynghorol Cynllunio
- Sefydlu Grŵp Ymgynghorol Rhaglen
- Dechrau ymgyrch codi arian (tasg digon anodd y dyddiau hyn) er mwyn cadw'r costau i lawr i gyfranogwyr

Yn y dyfodol byddwn yn annog darparwyr chwarae i arddangos y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, unai fel lleoliad i gyfranogwyr ymweld ag e' fel rhan o daith wedi ei threfnu neu o leoliad y gynhadledd, neu trwy roi cyflwyniad byr am eu gwaith. Cadwch lygad am wahoddiad i gymryd rhan – byddwn yn chwilio am brosiectau dyfeisgar o safon o bob cwr o Gymru.

Cadwch olwg ar yr hyn sy'n cael ei gynllunio ar dudalen Digwyddiadau www.chwaraecymru.org.uk byddant yn prysuro a phrysuro wrth inni ruthro ymlaen tuag at 2011.

Bydd archebion aelodau'r IPA yn cael blaenoriaeth a bydd aelodau hefyd yn derbyn gostyngiad ar gostau mynychu'r gynhadledd. Dysgwch fwy am yr IPA – yn hyrwyddo hawl y plentyn i chwarae – ar www.ipaworld.org

Wps! Sori Trystan!



Efallai bod y rhai adwyieithog yn eich mysg wedi sylwi ar gangymeriad yn ein rhifyn diwethaf.

Ar Ddiwrnod Chwarae fe ofynnem i ddau ohebydd ifanc i ofyn

rhywfaint o gwestiynau am chwarae i Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, ac fe gyhoeddodd eu cyfweiliadau – un yn Gymraeg (Trystan) ac un yn Saesneg (Joe). Yn anffodus, argraffwyd llun Joe gyda chyfweiliad Trystan. Felly dyma Trystan gyda Rhodri, ac efallai ichi sylwi ei fod ar y clawr blaen hefyd!

Llyfrau newydd yn ein llyfrgell

Lleolir Llyfrgell Chwarae Cymru yn ein Swyddfa Genedlaethol ym Mae Caerdydd, a cheir casgliad llai o adnoddau yn ein Swyddfa yng Ngogledd Cymru ym Mhrestatyn. Dyma ddeholliad o lyfrau a ychwanegwyd i'n casgliad yn ddiweddar:

Play for a Change

Stuart Lester a Wendy Russell

Mae Play England wedi cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth sy'n sail i feddwl cyfoes ynghylch chwarae. Mae'n cynnig dadansoddiad manwl o waith ymchwil a llenyddiaeth a gyhoeddwyd ers 2001 y mae deallwriaeth cyfoes o bwysigrwydd chwarae yn seiliedig arno a sut y mae hyn yn berthnasol i arfer a pholis cymdeithasol.

Cyhoeddwyd *Play for a Change*, mewn tri fformat: adroddiad ymchwil llawn 270-tudalen, crynodeb 60-tudalen, a chyflwyniad ar ffurf papur briffio 4-tudalen. Mae'r cyfan ar gael i'w llytho i lawr yn rhad ac am ddim neu i'w prynu gan www.playengland.org.uk

How to Live Dangerously: why we should all stop worrying and start living

Warwick Cairns

Mae hwn yn lyfr difyr a rhwydd i'w ddarllen sy'n cyflwyno ystadegau defnyddiol ar ffurf straeon cofiadwy. Mae'r teitl bachog yn un eironig – y ddaid yw nad ydyn ni erioed wedi gorfod wynebu unrhyw berygl mewn gwirionedd. Yr hyn sy'n wahanol nawr o'i gymharu â'r gorffennol yw natur hollbresennol y cyfryngau byd-eang a'r effaith a gaiff ar ein canfyddiad o niferoedd damweiniau ac achosion o herwgipio, o'i gymharu â realiti'r hyn fydd yn lladd y rhan fwyaf ohonom mewn gwirionedd.

Bydd yn cynnig cyd-destun defnyddiol i unrhyw un sy'n eu cael eu hunain yn dadlau o blaid chwarae plant ... a fyddai neb yn achwyn o ddod o hyd iddo yn eu hosan Nadolig. MG

American Journal of Play

(cyfrol 1 rhif 2, Hydref 2008)

Mae'r cylchgrawn chwarterol hwn yn cynnwys amrywiaeth o erthyglau ac adolygiadau llyfrau. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys erthyglau megis 'Gun Play'; 'Cats and Portals: Video Games, Learning and Play'; a 'The Nature of Play: An Overview'.